

Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy 2018-2033 Monmouthshire Replacement Local Development Plan 2018-2033 Examination

Arolygwyr/Inspectors: J de-Courcey BSc LLB MTPI MRTPI
C MacFarlane BSc (Anrh) MSc MRTPI

Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Helen Wilson
helen@programmeofficers.co.uk
01432 639547 / 07879 443035

Andrew Jones
Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Fynwy

17 Mehefin 2026

Annwyl Mr Jones

Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Sir Fynwy – Cais am wybodaeth

Diolch am gyflwyno'r Papur Sefyllfa Ffosffad, a'r dogfennau ategol, mewn ymateb i'n cais ynghylch effeithiau maetholion ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd, a'r ymateb cysylltiedig gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dyddiedig 4 Mehefin 2026.

Yn ein llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2025, gwnaethom ystyried bod '*y wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â mesurau eraill yn annigonol i fodloni gofynion 'Datganiad Polisi Cynllunio Dros Dro ar Ddatblygu mewn Afonydd ACA' Llywodraeth Cymru (5 Awst 2025), yn enwedig yr angen i ddangos bod camau priodol i osgoi dirywiad wedi'u sicrhau*'. Ar ôl adolygu gwybodaeth bellach y Cyngor, nid ydym o'r farn bod hyn wedi cael sylw digonol, ac mae angen rhagor o wybodaeth er mwyn llywio trafodaethau yn y sesiynau gwrandawriad sydd i ddod a'n hasesiad o gadernid y CDLI.

Rydym yn nodi datganiadau'r Cyngor, yn dilyn Adolygiad CNC o Drwyddedau, bod capasiti posibl yn bodoli o fewn gwaith trin dŵr gwastraff i hwyluso datblygiad arfaethedig o fewn dalgylchoedd ACA. O dan yr egwyddor 'cyfran deg', mae dull o'r fath yn dibynnu ar gydweithrediad effeithiol sy'n digwydd ar draws sectorau, ac mae paragraff 6.6.33 o'r Datganiad Polisi Cynllunio Dros Dro'n gofyn am ddangos bod camau priodol i osgoi dirywiad yr ACA wedi'u sicrhau. Rydym hefyd yn nodi bod safbwynt diweddaraf y Cyngor, a nodir yn ei Ddatganiad Gwrandawriad M1/1, yn nodi ym mharagraff 11.2 '*Mae'r Atodiad ARhC, ynghyd â'r Papur Sefyllfa Ffosffad (ED15c), yn adlewyrchu dull integredig esblygol o reoli maetholion, sy'n gyson â safbwynt Llywodraeth Cymru*'.

I'r perwyl hwn, gofynnwn i'r Cyngor nodi, lle bo hynny'n bosibl, y mesurau eraill y dibynnir arnynt ar hyd oes y CDLI i osgoi dirywiad a chyflawni adfer yr ACAu, ac a ellir ystyried y rhain yn 'ddiogel' yn unol â gofynion paragraff 6.6.33 o'r Datganiad Polisi Cynllunio Dros Dro. Dylid nodi'n glir rhyngddibyniaeth rhwng cyflawni'r mesurau hyn a datblygiad yn y CDLI, a fydd yn galluogi datblygiad newydd i ddigwydd lle cyflawnir cerrig milltir cyflawni (yn unol â pharagraff 6.6.34). Pan fo mesurau'n cael eu nodi, dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer lliniaru integredig, gan gynnwys drwy gyfraniadau datblygwyr, sy'n cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau adfer, neu'n cyflymu'r gwaith o gyflawni mesurau o'r fath (yn unol â pharagraff 6.6.35).

Dylai'r Cyngor hefyd ystyried, a darparu ymateb arnynt, rôl Cynlluniau Lleihau Maetholion Dalgylch, fel y cyfeirir atynt yn 'Datganiad Sefyllfa – Maetholion' Llywodraeth Cymru [ED21], ac a yw'r rhain yn cynrychioli mesurau digon 'diogel' o ystyried eu natur sy'n dod i'r amlwg. Rydym wedi ysgrifennu at CNC yn gofyn am ddiweddariad ar Gynlluniau Lleihau Maetholion Dalgylch a byddem yn annog y Cyngor i gysylltu i sicrhau bod ymatebion cyflenwol yn cael eu darparu.

Dylai'r dull integredig o adfer a lliniaru gael ei adlewyrchu mewn dull 'rhybudd polisi' sy'n gwneud rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar y cerrig milltir cyflawni ar gyfer mesurau gwella parhaus ac yn y dyfodol yn cael eu cyflawni, gyda chydabyddiaeth y bydd angen lliniaru dan arweiniad datblygwyr i gyflawni niwtraliaeth maetholion lle nad yw cerrig milltir yn cael eu cyflawni. Felly, gofynnir i'r Cyngor ystyried yr angen am eiriad diwygiedig pellach ar gyfer Polisi NR3 a'i destun ategol i ymgorffori'r dull hwn. Os cynigir newidiadau pellach, dylid adlewyrchu'r rhain mewn ARhC wedi'i ddiweddarau, y dylid ymgynghori â CNC, ac amserlen y newidiadau arfaethedig i'r CDLI. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes angen diweddariadau canlyniadol i'r cynllun gweithredu lliniaru (gan nodi gofynion paragraff 30 o 'Nodyn Eglurhad ar gymhwyso'r Profion Cadernid i CDLIau lle gall maetholion ychwanegol effeithio ar ACA' Llywodraeth Cymru (Mawrth 2026)), y Cynllun Cyflawni Seilwaith a'r sylfaen dystiolaeth hyfywedd.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb y Cyngor i'r uchod erbyn **15 Gorffennaf 2026**.

Os nad yw unrhyw un o'r materion yr ydym wedi'u nodi uchod yn glir, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr arholiad. Nid ydym yn gwahodd unrhyw sylwadau neu ymatebion gan bartïon sydd â diddordeb.

Yn gywir,

J de-Courcey ac C MacFarlane

AROLYGWYR